

# Yr Anymwybod Cymreig

Freud, Dirfodaeth a'r Seice Cenedlaethol

Llion Wigley

Cyfres: Safbwyntiau

Gorffennaf 2019

£16.99 • CM • 9781786834454 • 216 x 138mm • 160 Tudalennau

Marchnad:


Y brif farchnad bydd darllenwyr Cymraeg sydd â diddordeb mewn syniadau, diwylliant a hanes, yn fwyaf penodol hanes Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Bydd y gyfrol yn cwrdd â'r farchnad darged hon trwy gyflwyno tystiolaeth amrywiol ynglŷn â hanes deallusol a diwylliannol Cymru dros gyfnod tyngedfennol o hanner canrif rhwng 1920 a 1970, a thrwy adlewyrchu ar arwyddocâd y dystiolaeth hyn mewn modd heriol a pholemig. Dylai'r gyfrol apelio at farchnad academiaidd o haneswyr a myfyrwyr sydd â diddordeb arbenigol yn y cyfnod dan sylw, yn ogystal â darllenwyr mwy cyffredinol.

Broliant:

Mae'r gyfrol hon yn rhoi cipolwg ar gyfoeth hanes syniadau yng Nghymru dros hanner canrif gynhyrfus rhwng diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf a marwolaeth yr athronydd disglair J. R. Jones ym 1970. Bu Jones yn rhan ganolog o'r ymgais a wnaed yn y cyfnod i gyflwyno syniadau newydd, heriol a chwyldroadol o feysydd fel seicdreiddiad a dirfodaeth i'r diwylliant Cymraeg. Adeiladodd meddylwyr ac ysgolheigion tebyg iddo ddarlun o'r anumwybod Cymreig mewn gwaith sydd o gymorth parhaol i ddeall ein profiadau hanesyddol a gwleidyddol fel cenedl. Trwy ddadansoddi sut yr ymatebodd awduron Cymraeg i syniadau Freud, Jung, Sartre, De Beauvoir ac eraill, lleolir hanes deallusol y Gymru Gymraeg mewn cyd-destun rhyngwladol eang hefyd. Ceisir ymhellach ddangos perthnasedd a phwysigrwydd y dehongliad Cymraeg o rhai o'r syniadau hyn i ddadleuon cyfoes ynglŷn ag iechyd meddwl, gwleidyddiaeth a hunaniaeth yng Nghymru. Ymatebodd cenhedlaeth o awduron i'r argyfwng dirfodol a wynebair diwylliant Cymraeg yn y cyfnod dan sylw trwy ddangos ymrwymiad a phenderfyniad i gymhwyso ac addasu'r datblygiadau deallusol mwyaf modern er mwyn ceisio'i oresgyn mewn modd sy'n parhau'n ysbrydoliaeth heddiw, yng nghysgod Brexit a thwf awdurdodaeth.

Pwyntiau Pleidiol:

- Y llyfr hwn fydd yr ymdriniaeth fanwl cyntaf o'r ymateb Cymraeg i syniadau Sigmund Freud a seicdreiddiad yn gyffredinol yn y cyfnod o hanner canrif rhwng 1920 a 1970 a hefyd yr ymdriniaeth gyntaf benodol o'r ymateb i ddirfodaeth yng Nghymru. Bydd yn codi cwr y llen i ddarllenwyr ar y cyfoeth o erthyglau, cyfrolau ac ysgrifau a gyhoeddwyd yn y cyfnod hwn yn y Gymraeg sy'n delio gyda syniadau heriol, cyffrous rhyngwladol fel seicdreiddiad a dirfodaeth.
- Mae'n gyfrol ryngddisgyblaethol sy'n cwmpasu hanes, seicoleg, llenyddiaeth ac athroniaeth.
- Mae'r gyfrol yn rhoi sylw manwl i waith awduron pwysig Cymraeg o hanner gyntaf yr ugeinfed ganrif yn arbennig sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu hanghofio yn gyffredinol, megis Elena Puw Morgan, Gwilym O. Roberts a Harri Williams.



Manylion Awdur:

**Mae Llion Wigley** yn hanesydd sydd wedi cyhoeddi ysgrifau ac erthyglau yn Y Traethodydd, Cylchgrawn Hanes Cymru, Llafur, Ysgrifau Beirniadol ac O'r Pedwar Gwynt.

## Cynnwys:

Diolchiadau

Cyflwyniad

1. Meddygon yr Enaid: Seicdreiddiad a Seicotherapi yn y Gymraeg

2. Tywyll Heno? Ymatebion Llenorion Cymraeg I Seicdreiddiad

3. Argyfwng ac Ymrwymiad: Dirfodaeth Gymraeg

4. Cyfannu'r Rhwyg: Seicoleg yng Ngwaith J. R. Jones

Casgliad

Nodiadau

Llyfryddiaeth

Mynegai


Teitlau Perthnasol Eraill:

### **Pam na fu Cymru**

Methiant Cenedlaetholdeb Cymraeg

Simon Brooks

£16.99 • CM • 9781783162338 • 216 x 138mm • 250 tudalen



DU (heb gynnwys Cymru):

NBN International | [orders@nbninternational.com](mailto:orders@nbninternational.com) | Ffôn: 01752 202301 | Ffacs: 01752 202333

Cymru:

Cyngor Llyfrau Cymru | [canolfan.ddosbarthu@cllc.org.uk](mailto:canolfan.ddosbarthu@cllc.org.uk) | Ffôn: 01970 624455 | Ffacs: 01970 625506

Gwasg Prifysgol Cymru  
Cofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd, Cymru, CF10 3NS  
+ 44 (0) 29 2037 6990  
[www.gwasgprifysgolcymru.org](http://www.gwasgprifysgolcymru.org)



**GWASG PRIFYSGOL CYMRU**  
**UNIVERSITY OF WALES PRESS**

# Y Gyfraith yn ein Llên

R. Gwynedd Parry

Gorffennaf 2019

£19.99 • CM • 9781786834270 • 216 x 138mm • 304 Tudalennau

Marchnad:

Bydd y llyfr hwn o ddiddordeb i Myfyrwyr a darlithwyr.

Broliant:


Astudiaeth banoramig a thematig a geir yma sy'n bwrw golwg ar y traddodiad llenyddol Cymraeg yn ei ymwneud â'r gyfraith. Cyflwynir y traddodiad barddol a llenyddol o ddelweddu'r gyfraith, o Daliesin Ben Beirdd hyd at ein dyddiau ni. Gyda hynny, amlygir y traddodiad llenyddol a'i gynnyrch fel ffynonellau sydd yn dyfnhau ein dealltwriaeth o'r gyfraith a'i dylanwad mewn cymdeithas – a chymdeithas yng Nghymru yn benodol. Gan fabwysiadu strwythur cronolegol yn bennaf, rhoddir dadansoddiad o'r ymateb llenyddol i gyfundrefn gyfreithiol yng Nghymru mewn cyfnodau penodol yn ei hanes. Prif ddiddordeb y gyfrol yw'r cyfeiriadau cyfreithiol mewn cynnyrch llenyddol o fewn cyd-destun astudiaeth hanesyddol a chyfreithiol, a'r nod yw gwerthfawrogi llenyddiaeth fel cyfrwng i fynegi syniadau neu i ymateb i ffenomenau cyfreithiol. Dyma'r tro cyntaf i astudiaeth gynhwysfawr o'r maes ymddangos, ac y mae'n torri tir newydd mewn hanesyddiaeth gyfreithiol Gymreig yn ogystal â gwneud cyfraniad pwysig i hanesyddiaeth lenyddol.

Pwyntiau Pleidiol:

- Astudiaeth aroloesol o'r modd y mae'r gyfraith wedi ei phortreadu gan feirdd a llenorion Cymraeg
- Llyfr sydd yn olrhain hanes y gyfraith yng Nghymru trwy gyfrwng llenyddiaeth Gymraeg, o'r oesoedd canol hyd at yr unfed ganrif ar hugain
- Cyfrol sydd yn adrodd hanes llenyddiaeth Gymraeg trwy lygaid y cyfreithiwr.

Manylion Awdur:

**Mae Gwynedd Parry** yn academydd ym Mhrifysgol Abertawe, ac yn fargyfreithiwr. Yn 2010 cafodd ei ethol yn Gymrawd i'r Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol, ac yn 2018 fe'i hetholwyd yn Gymrawd i Gymdeithas Ddysgedig Cymru.



Teitlau Perthnasol Eraill:


**Cyfan-dir Cymru**

Ysgrifau ar Gyfannu Dwy Lenyddiaeth Cymru

M. Wynn Thomas

Tachwedd 2017

£24.99 • CM • 9781786830982 • 216 x 138 mm • 304 Tudalen



DU (heb gynnwys Cymru):

NBN International | [orders@nbninternational.com](mailto:orders@nbninternational.com) | Ffôn: 01752 202301 | Ffacs: 01752 202333

Cymru:

Cyngor Llyfrau Cymru | [canolfan.ddosbarthu@cllc.org.uk](mailto:canolfan.ddosbarthu@cllc.org.uk) | Ffôn: 01970 624455 | Ffacs: 01970 625506

Gwasg Prifysgol Cymru  
Cofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd, Cymru, CF10 3NS  
+ 44 (0) 29 2037 6990  
[www.gwasgprifysgolcymru.org](http://www.gwasgprifysgolcymru.org)



**GWASG PRIFYSGOL CYMRU**  
**UNIVERSITY OF WALES PRESS**